

MENTER AR GYFER  
CADWRAETH NATUR CYMRU



INITIATIVE FOR NATURE  
CONSERVATION CYMRU

# Newsletter

December 2024

Supporting INCC helps us to stand up for nature by taking legal action as well as restoring habitats and species across Wales.

To remain impartial, we do not accept Government funding for any of our activities. Instead, we rely on the generous support from people like you, through regular giving, donations and bequests. Your contribution will help INCC fund important conservation work.



One of the best ways to support INCC is by signing up to our all-Wales conservation magazine [Natur Cymru](#). For more information on how you can support INCC, scan the QR code or visit our [website](#).

The Initiative for Nature Conservation Cymru (INCC) is a Charitable Incorporated Organisation (CIO), charity number 1180113.

INCC, c/o Science Centre, National Botanic Garden of Wales, Llanarthne, Carmarthenshire, SA32 8HG.

# Welcome

Welcome to INCC's Autumn / Winter newsletter, summarising some of the many conservation projects we are undertaking for wildlife across Wales. Over the last few months staff and trustees have been hard at work fundraising for our Investigating Nature Project, which if successful will see a dedicated team of journalists and researchers set up to investigate issues impacting nature and the nature conservation sector in Wales.

We still have a long way to go. If you can help in any way, please do consider donating to the project at: [Donate – Initiative for Nature Conservation Cymru](#)



INCC CEO Rob Parry (top). © Lizzie Wilberforce  
Natur Cymru magazine (bottom). © Louise Waring



# Restoring Arable Farmland in the Vale of Glamorgan

INCC is aiming to increase the fortunes of one of Wales's rarest and most colourful farmland birds – the Yellowhammer *Emberiza citrinella*. The project, which is part-funded by the Welsh Ornithological Society, sees landowners and conservationists working together for Yellowhammers and other wildlife at a mixed farm in the Vale of Glamorgan.

The intensification of agriculture in the past few decades has seen a reduction of traditional mixed (arable/livestock) farmland. Higher yields, coupled with the widespread use of herbicides and the loss of hedgerows has meant that there are now fewer and fewer spaces left for nature. One of our flagship species for the farm is Yellowhammer. These resident birds have declined in Wales by around 57% since the early 1990s. They require thick hedgerows and rough grassland for nesting, a good source of insect prey during the breeding season and a plentiful supply of seeds over winter.

To help the Yellowhammers out at the farm, INCC has overseen the establishment of almost 2ha of arable annual wildflower margins. The field margins in all three arable fields are now full of native wildflowers that support insects and birds all year round. Surveys undertaken in spring of this year showed that there were 6 pairs of Yellowhammer confirmed breeding at the farm. Hopefully, the new margins and their seeds will encourage more pairs to successfully nest in future.

Trees have also been planted in strategic locations to improve connectivity across the farm. Native species that are most beneficial for biodiversity were chosen, including Alder Buckthorn *Frangula alnus*, which immediately attracted egg-laying Brimstone butterflies *Gonepteryx rhamni*.

Other conservation measures already undertaken include the installation of a Barn Owl box, an artificial Otter holt and Dormouse nest tubes. Various surveys for reptiles, bats and birds have also been carried out to assess the current ecological condition of the farm.

INCC are now looking for funding to cover the additional costs of the project, so that they can do even more for farmland wildlife in the Vale of Glamorgan. If you would like to learn more about the project or are able to donate toward the project's cost, please visit the INCC website: [Yellowhammer Conservation in the Vale of Glamorgan – Initiative for Nature Conservation Cymru](#)



# Farm Habitat Restoration in Pembrokeshire

INCC are working with landowners at Llwyngoras in North Pembrokeshire to restore their farmland biodiversity. Until relatively recently, the site was a mixed pasture and arable farm comprising of agriculturally improved pasture and silage/haylage fields bordered by dense hedgerows and wooded valleys. The long-term vision is to create a traditional lowland mixed farmland landscape of grazed pastures, meadows and arable crops habitats, all managed in an environmentally sustainable way to increase local biodiversity.

Initially a habitat assessment of the land was carried out by INCC, with subsequent management recommendations made. The priority of the plan was to improve the biodiversity value of the grassland which was dominated by robust grasses previously sown to maximise agricultural production. Species such as Italian Ryegrass *Lolium multiflorum*, Perennial Ryegrass *Lolium perenne* and Yorkshire Fog *Holcus lanatus* were abundant.

To restore these grasslands requires the reduction of these dominant species in favour of less competitive species of grasses and wildflowers. The habitat assessment suggested that previous high nutrient input means that it is unlikely that management alone would significantly improve the biodiversity of the grassland. Therefore, a native locally-sourced wildflower mix was broadcast on one of the largest grasslands at Llwyngoras after cutting and collecting of existing sward. This will be managed as a traditional hay meadow to help the wildflowers establish, followed by winter grazing by cattle to reduce the competitive advantage of the grasses..

Another habitat restoration project at Llwyngoras is the creation of wood pasture in a selection of the fields. Wood pasture is now a relatively rare habitat in Wales and throughout the UK. They are essential in supporting ancient and veteran trees along with undisturbed soils that support fungi and a variety of plant and invertebrate species. An important feature of this management is grazing by cattle to maintain the grassland around the trees. In 2024 a selection of native trees were planted thinly in 4 of the smaller fields with each one fenced off to prevent browsing by cattle.

We were helped with this task, and the seed broadcasting, by staff and students from Bridgend College with whom we continue to have a very rewarding relationship.



# Community Conservation for Water Voles in Upland Wales

Eliza and Richard, our Assistant Conservation Officers, have spent the last few months intensively surveying the uplands around the Pen Y Cymoedd windfarm to establish the distribution of the UK's fastest declining mammal, the Water Vole *Arvicola amphibius*. It is a huge area so INCC, supported by volunteers, have begun looking in suitable areas of habitat, looking for the Water Voles' characteristic field signs (latrines, feeding signs, burrows) and mapping their locations.



Over the next 3 years, funded by the Pen y Cymoedd Community Fund, INCC will be undertaking essential research on Water Vole populations living in the uplands of Glamorgan, now thought to be one of the most important regions for the species in Wales.

In addition, Nia-Joelle Weinzweig, a PhD student from Cardiff University, has been collecting droppings and water samples to assess the gut microbiome of the Water Voles, to compare with lowland Water Voles. Droppings will also be collected, as well as hairs, in order to carry out DNA analysis of the colonies to establish how well connected they are. This will allow us to start identifying potential barriers to their dispersal across the landscape.

Later in the project the focus will shift to work in the local communities to make them aware of the importance of the upland landscapes, and to involve them as much as possible.



Water Vole (right). © Chris Upson

Nia, Eliza and Richard collecting Water Vole droppings and water samples (left). © Rob parry


# Marsh Fritillary Reinforcement Project Update

Since the last newsletter the Marsh Fritillaries in the rearing pens have bred, with the resulting caterpillars now entering hibernation before release in 2025. The priority has since turned to habitat management at Llantrisant Common and nearby sites. The common has become slightly less suitable for the species (and others) as marshy grassland has become rank, and scrub and bracken has encroached on some of the previously ideal areas. We have overseen the use of a cut and collect machine to restore some of the most affected areas. It is important that the common retains a diverse mix of habitats but left unchecked the open areas will rapidly disappear.

We are very proud to have now published our Marsh Fritillary guidebook. This describes our experiences of reinforcing / reintroducing a Marsh Fritillary population in South Wales, as well as detailing the ecology of the species. The guidebook is available for purchase at: [INCC's Marsh Fritillary book – Initiative for Nature Conservation Cymru](#)



Marsh Fritillary guidebook (left). © Vaughn Matthews  
Llantrisant Common habitat management(right). © Jeff Lloyd





# Fferm Llwyndewi Farm Nature Reserve

August saw INCC finally sign the lease on our first nature reserve! As mentioned in our June newsletter, the newly-named Llwyndewi Farm is an amazing mix of marshy grassland, meadows, woodland and much else. We'll be leading some guided walks there next year and undertaking habitat management to improve what is already a special area.

The Herefordshire cattle have started making a visible positive impact on the marshy grassland, helping to improve the biodiversity value of one of the site's most important, but previously undergrazed, habitats. Soon the boundary fence will be improved to exclude sheep and allow the cattle to graze over a wider area.

Already, scattered native trees have been planted in areas of dense monocultures of bracken, and there have been volunteer workparties tackling the Himalayan Balsam that is currently present in a few areas.

In July, thanks to WWF Cymru, INCC ran a bioblitz at the reserve, and later in the year volunteers from WSP Consultancy carried out some more recording to improve our knowledge of the flora and fauna present. Some highlights have been the String-of-Sausage *Usnea articulata*, Lunar Hornet Moth *Sesia bembeciformis*, Glow Worm *Lampyrus noctiluca*, and Nightjar *Caprimulgus europaeus*.

In November this year, an incredibly rare find was recorded at the nature reserve – a pair of Willow Tit *Poecile montanus*. Willow tits are now one of the UK's rarest breeding birds. It is unknown whether the Willow Tits breed on the nature reserve or were just overwintering. However, surveys planned for early spring next year will tell us a lot more about how Willow Tits and other species are using the nature reserve, and what can be done to help them.



String of Sausage Lichen (left). © Rob Parry  
Lunar Hornet Moth (right). © Rob Parry

MENTER AR GYFER  
CADWRAETH NATUR CYMRU



INITIATIVE FOR NATURE  
CONSERVATION CYMRU

# Cylchlythyr

Rhagfyr 2024

Mae cefnogi INCC yn ein helpu ni i sefyll dros fyd natur drwy weithredu'n gyfreithiol a hefyd adfer cynefinoedd a rhywogaethau ledled Cymru.

I aros yn ddiuedd, nid ydym yn derbyn cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer unrhyw un o'n gweithgareddau. Yn hytrach, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth hael gan bobl fel chi, drwy gyfraniadau rheolaidd, rhoddion a chymynroddion. Bydd eich cyfraniad yn helpu INCC i gyllido gwaith cadwraeth pwysig.

Un o'r ffyrdd gorau o gefnogi INCC yw drwy gofrestru i dderbyn ein cylchgrawn cadwraeth ar gyfer Cymru gyfan [Natur Cymru](#). I gael mwy o wybodaeth am sut gallwch chi gefnogi INCC, sganiwch y cod QR neu ewch i'n [gwefan ni](#).



Mae Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC) yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO). Rhif yr elusen 1180113.

INCC, d/o Y Ganolfan Wyddoniaeth, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, SA32 8HG.

## Croeso

Croeso i gylchlythyr yr Hydref / Gaeaf INCC, sy'n crynhoi rhai o'r prosiectau cadwraeth niferus rydyn ni'n eu cynnal ar gyfer bywyd gwyllt ledled Cymru. Dros y misoedd diwethaf mae'r staff a'r ymddiriedolwyr wedi bod yn gweithio'n galed yn codi arian ar gyfer ein Prosiect Ymchwilio i Natur, ac os bydd yn llwyddiannus bydd tîm ymroddedig o newyddiadurwyr ac ymchwilwyr yn cael ei sefydlu i ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar fyd natur a'r sector cadwraeth natur yng Nghymru. Mae gennym ni lawer o waith i'w wneud eto. Os gallwch chi helpu mewn unrhyw ffordd, ystyriwch gyfrannu at y prosiect yn: [Cyfrannu – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru](#)



Prif Swyddog Gweithredol INCC Rob Parry (top). © Lizzie Wilberforce  
Cylchgrawn Natur Cymru (gwaelod). © Louise Waring

# Adfer Tir Amaethyddol Âr ym Mro Morgannwg

Mae INCC yn ceisio gwella ffawd un o adar ffermdir prinnaf a mwyaf lliwgar Cymru – y Bras Melyn *Emberiza citrinella*. Mae'r prosiect, sy'n cael ei gyllido'n rhannol gan Gymdeithas Adaryddol Cymru, yn cynnwys perchnogion tir a chadwraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd dros y Bras Melyn a bywyd gwyllt arall ar fferm gymysg ym Mro Morgannwg.

Mae amaethyddiaeth ddwysach yn ystod y degawdau diwethaf wedi arwain at leihad mewn tir ffermio cymysg (âr / da byw) traddodiadol. Mae cynyddu cnwd, ynghyd â'r defnydd eang o chwynladdwyr a cholli gwrychoedd, wedi golygu bod llai a llai o ofod ar ôl ar gyfer byd natur bellach. Un o'n rhywogaethau mwyaf blaenllaw ni ar y fferm yw'r Bras Melyn. Mae'r adar preswyl hyn wedi prinhau yng Nghymru o tua 57% ers dechrau'r 1990au. Maen nhw angen gwrychoedd trwchus a glaswelltir garw ar gyfer nythu, ffynhonnell dda o bryfed yn ysglyfaeth yn ystod y tymor magu, a chyflenwad helaeth o hadau dros y gaeaf.

Er mwyn helpu'r Bras Melyn ar y fferm, mae INCC wedi goruchwyllo sefydlu bron i 2ha o ymylon blodau gwyllt blynyddol â'r. Mae ymylon y caeau ym mhob un o'r tri chae â'r bellach yn llawn blodau gwyllt brodorol sy'n gartref i bryfed ac adar drwy gydol y flwyddyn. Dangosodd arolygon a gynhaliwyd yn ystod y gwanwyn eleni fod 6 phâr o'r Bras Melyn yn magu ar y fferm. Gobeithio y bydd yr ymylon newydd a'u hadau yn annog mwy o barau i nythu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

Mae coed wedi cael eu plannu mewn lleoliadau strategol hefyd i wella cysylltedd ar draws y fferm. Dewiswyd rhywogaethau brodorol sydd fwyaf buddiol i fioamrywiaeth, gan gynnwys Breuwydden *Frangula alnus*, a ddenodd löyn byw Melyn y Rhafnwydd *Gonepteryx rhamni* ar unwaith i ddodwy wyau.

Mae mesurau cadwraeth eraill sydd wedi'u rhoi ar waith eisoes yn cynnwys gosod bocs Tylluanod Gwynion yn ei le, gwâl Dyfrgwn artiffisial a thiwbiau nythu i Bathewod. Mae arolygon amrywiol ar gyfer ymlusgiaid, ystlumod ac adar wedi cael eu cynnal hefyd i asesu cyflwr ecolegol presennol y fferm.

Mae INCC yn chwilio am gyllid nawr i dalu costau ychwanegol y prosiect, er mwyn gwneud mwy fyth dros fywyd gwyllt tir amaethyddol ym Mro Morgannwg. Os hoffech chi ddysgu mwy am y prosiect neu os gallwch chi gyfrannu tuag at gost y prosiect, ewch i wefan INCC: [Cadwraeth y Bras Melyn ym Mro Morgannwg – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru](#)





# Adfer Cynefin Fferm yn Sir Benfro

Mae INCC yn gweithio gyda pherchnogion tir yn Llwyngoras yng Ngogledd Sir Benfro i adfer bioamrywiaeth eu tir amaethyddol. Tan yn gymharol ddiweddar, porfa gymysg a fferm âr oedd y safle yn cynnwys porfa wedi'i gwella'n amaethyddol a chaeau silwair / gwair wedi'u ffinio gan wrychoedd trwchus a dyffrynnoedd coediog. Y weledigaeth hirdymor yw creu tirwedd amaethyddol gymysg draddodiadol ar dir isel o borfeydd pori, dolydd a chynefinoedd crydau âr, a'r cyfan yn cael eu rheoli mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy i gynyddu bioamrywiaeth leol.

I ddechrau, cynhaliwyd asesiad cynefin o'r tir gan INCC, a gwnaed argymhellion rheoli dilynol. Blaenoriaeth y cynllun oedd gwella gwerth bioamrywiaeth y glaswelltir a oedd yn cael ei reoli gan laswelltau cryf oedd wedi'u hadu'n flaenorol er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant amaethyddol gorau posib. Roedd rhywogaethau fel Rhygwellt Eidalaid *Lolium multiflorum*, Rhygwellt Lluosflwydd *Lolium perenne* a Maswellt Penwyn *Holcus lanatus* yn doreithiog.

Er mwyn adfer y glaswelltiroedd hyn mae angen lleihau'r rhywogaethau cryfaf yma a ffafrio rhywogaethau llai cystadleuol o laswelltau a blodau gwyllt. Awgrymodd yr asesiad cynefin fod y mewnbwn maeth uchel blaenorol yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai rheolaeth yn unig yn gwella bioamrywiaeth y glaswelltir yn sylweddol. Felly, gwasgarwyd cymysgedd brodorol o flodau gwyllt o darddiad lleol ar un o laswelltiroedd mwyaf Llwyngoras ar ôl torri a chasglu'r gwyndwn presennol. Bydd y safle yma'n cael ei reoli fel dôl wair draddodiadol i helpu'r blodau gwyllt i sefydlu, ac wedyn pori dros y gaeaf gan wartheg i leihau mantais gystadleuol y glaswelltau.

Mae creu porfa goediog mewn detholiad o'r caeau yn brosiect adfer cynefin arall yn Llwyngoras. Mae porfa goediog yn gynefin cymharol brin yng Nghymru a ledled y DU bellach. Maen nhw'n hanfodol i gynnal coed hynafol a feteran ynghyd â phriddoedd nad oes neb wedi tarfu arnyn nhw sy'n gartref i ffyngau ac amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion ac infertebrata. Un nodwedd bwysig o'r rheolaeth hon yw pori gan wartheg i gynnal y glaswelltir o amgylch y coed. Yn 2024 plannwyd detholiad o goed brodorol yn denau mewn 4 o'r caeau llai, gyda phob un wedi'i ffensio i atal gwartheg rhag brigbori.

Cawsom help gyda'r dasg hon, a gwasgaru'r hadau, gan staff a myfyrwyr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr ac mae gennym berthynas werthfawr iawn gyda nhw o hyd.



Pathew a gofnodwyd yn ddiweddar yn Llwyngoras (yn cael ei drin dan drwydded (top)). © Rob Parry  
Hau hadau yn Llwyngoras (gwaelod). © Rob Parry

# Cadwraeth Gymunedol ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr yn Ucheldir Cymru

Mae Eliza a Richard, ein Swyddogion Cadwraeth Cynorthwyol, wedi treulio'r ychydig fisoedd diwethaf yn cynnal arolwg dwys o'r ucheldiroedd o amgylch fferm wynt Pen y Cymoedd i ganfod dosbarthiad y mamal sy'n prinhau gyflymaf yn y DU, Llygoden Bengron y Dŵr *Arvicola amphibius*. Mae'n ardal enfawr felly mae INCC, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr, wedi dechrau chwilio mewn ardaloedd addas o gynefin, gan gadw llygad am arwyddion maes nodweddiadol o Lygod Pengrwn y Dŵr (toiledau, arwyddion bwydo, tyllau) a mapio eu lleoliadau.



Dros y 3 blynedd nesaf, gyda chyllid o Gronfa Gymunedol Pen y Cymoedd, bydd INCC yn cynnal ymchwil hanfodol i boblogaethau o Lygod Pengrwn y Dŵr sy'n byw yn ucheldiroedd Morgannwg, sy'n cael ei ystyried bellach fel un o'r rhanbarthau pwysicaf ar gyfer y rhywogaeth yng Nghymru.

Yn ogystal, mae Nia-Joelle Weinzweig, myfyrwraig PhD o Brifysgol Caerdydd, wedi bod yn casglu tail a samplau dŵr i asesu microbiom perfedd y Llygod Pengrwn y Dŵr, i gymharu â Llygod Pengrwn y Dŵr yr iseldir. Bydd tail yn cael ei gasglu hefyd, yn ogystal â blew, er mwyn cynnal dadansoddiad DNA o'r poblogaethau i sefydlu pa mor dda maent wedi'u cysylltu. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ddechrau adnabod rhwystrau posibl i'w hymlediad ar draws y dirwedd.

Yn ddiweddarach yn ystod y prosiect bydd y ffocws yn symud i waith yn y cymunedau lleol i'w gwneud yn ymwybodol o bwysigrwydd tirweddau'r ucheldir, a'u cynnwys cymaint â phosibl.

Llygoden Bengron y Dŵr (dde). © Chris Upson

Nia, Eliza a Richard yn casglu tail Llygod Pengrwn y Dŵr a samplau dŵr (chwith). © Rob Parry


# Diweddariad Prosiect Atgyfnerthu Britheg y Gors

Ers y cylchlythyr diwethaf mae glöynnod byw Britheg y Gors y corlannau magu wedi magu, gyda'r lindys a gafwyd o ganlyniad bellach yn mynd i aeafgysgu cyn eu rhyddhau yn 2025. Ers hynny mae'r flaenoriaeth wedi troi at reoli'r cynefin ar Gomin Llantrisant a safleoedd cyfagos. Mae'r comin wedi dod yn llai addas ar gyfer y rhywogaeth (ac eraill) wrth i laswelltir corsiog dyfu'n drwchus, ac mae prysgwydd a rhedyn wedi ymledu i rai o'r ardaloedd a arferai fod yn ddelfrydol. Rydym wedi goruchwyllo'r defnydd o beiriant torri a chasglu i adfer rhai o'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio fwyaf. Mae'n bwysig bod y comin yn cadw cymysgedd amrywiol o gynefinoedd ond heb gadw llygad arnynt bydd yr ardaloedd agored yn diflannu'n gyflym.

Rydym yn falch iawn ein bod ni bellach wedi cyhoeddi ein canllaw i Fritheg y Gors. Mae hwn yn disgrifio ein profiadau o atgyfnerthu / ailgyflwyno poblogaeth o Fritheg y Gors yn Ne Cymru, yn ogystal â manylu ar ecoleg y rhywogaeth. Mae'r canllaw ar gael i'w brynu yn: [Llyfr Britheg y Gors](#)  
[INCC – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru](#)



Canllaw Britheg y Gors (chwith). © Vaughn Matthews  
Rheoli cynefin Comin Llantrisant (dde). © Jeff Lloyd



# Gwarchodfa Natur Fferm Llwyndewi

Ym mis Awst, o'r diwedd, llofnododd INCC y brydles ar gyfer ein gwarchodfa natur gyntaf! Fel y soniwyd yn ein cylchlythyr ym mis Mehefin, mae Fferm Llwyndewi, sydd wedi'i henwi o'r newydd, yn gymysgedd anhygoel o laswelltir corsiog, dolydd, coetir a llawer o bethau eraill. Byddwn yn arwain rhai teithiau cerdded tywys yno y flwyddyn nesaf ac yn rheoli cynefinoedd er mwyn gwella'r hyn sydd eisoes yn ardal arbennig.

Mae'r gwartheg Swydd Henffordd wedi dechrau cael effaith gadarnhaol weledol ar y glaswelltir corsiog, gan helpu i wella gwerth bioamrywiaeth un o gynefinoedd pwysicaf y safle, oedd ddim yn cael ei bori'n ddigonol o'r blaen. Cyn bo hir bydd y ffens derfyn yn cael ei gwella i gadw defaid allan ac i ganiatáu i'r gwartheg bori dros ardal ehangach.

Mae coed brodorol gwasgaredig wedi cael eu plannu eisoes mewn ardaloedd o ungnwd trwchus o redyn, a bu gweithgorau gwirfoddol yn mynd i'r afael â'r Ffromlys Chwarennog sy'n bresennol mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd.

Ym mis Gorffennaf, diolch i WWF Cymru, cynhaliodd INCC bioblitz yn y warchodfa, ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn bu gwirfoddolwyr o WSP Consultancy yn gwneud mwy o waith cofnodi i wella ein gwybodaeth am y fflora a'r ffawna sy'n bresennol. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae Stribed o Selsig *Usnea articulata*, Fflug-bicwnen Dorchog *Sesia bembeciformis*, Pryf Tân *Lampyris noctiluca*, a'r Troellwr Mawr *Caprimulgus europaeus*.

Ym mis Tachwedd eleni, cofnodwyd darganfyddiad hynod brin yn y warchodfa natur - pâr o Ditwod yr Helyg *Poecile montanus*. Mae Titw'r Helyg yn un o adar magu prinnaf y DU bellach. Dydyn ni ddim yn gwybod a oedd y ddau yn magu yn y warchodfa natur neu ddim ond yn treulio'r gaeaf yno. Er hynny, bydd arolygon sydd wedi'u cynllunio ar gyfer dechrau'r gwanwyn y flwyddyn nesaf yn dweud llawer mwy wrthym ni am sut mae Titw'r Helyg a rhywogaethau eraill yn defnyddio'r warchodfa natur, a beth allwn ni ei wneud i'w helpu nhw.



Cen Stribed o Selsig (chwith). © Rob Parry  
Fflug-bicwnen Dorchog (dde). © Rob Parry